

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

319 - Beirniadaeth Cystadleuaeth ar gyfer yr oedran 19-25 oed sydd yn astudio Gofal Plant -cynllunio a/neu creu gêm ar gyfer y

Blynyddoedd Cynnar

Beirniad: Meri Jones

Daeth 3 ymgais i law. Roedd 2 o'r tair gêm wedi eu seilio ar y Llyfr 'Y Lindysyn Lwglyd lawn' - mae hyn yn ddull da i sicrhau bod perthnasedd rhwng y gemau ar llyfr ac yn fodd o ehangu brwdfrydedd plant mewn llyfrau. Roedd y gêm arall yn dilyn patrwm y gêm fwrdd Nadroedd ac Ysgolion - ond yn anffodus roedd rhai termau Saesneg yn y gêm ac felly nid yw yn gymwys i'w dderbyn yn unol â chyfrwyddiadau a rheolau yr Urdd. Mae rhaid yn bod yn ofalus gyda chywirdeb iaith a gramadeg ar gyfer pob oedran. Byddai cyfarwyddiadau manylach ar amcan/nod /pwrpas /rheolau y gemau wedi bod yn ddefnyddiol.

CYNTAF: Heti Jones

'Roedd un gweithgaredd i'w gwneud wrth ddarllen y llyfr 'Y Lindysyn Lwglyd lawn' a'r ddwy weithgaredd/gemau eraill i'w gwneud ar ôl darllen y llyfr sef - dal cerdyn i ddangos pa ffrwyth oedd yn cael eu henwi yn y stori ar y gwahanol ddyddiau

Gêm 2 - cardiau snap gyda gair/brawddeg yn cyfateb i'r llun

Gêm 3 - sawl ffrwyth oedd wedi ei fwyta ar y gwahanol ddyddiadau.

'Roedd y gem yma yn cyfuno sgiliau iaith a rhifedd.

'Roedd y gweithgareddau yn ddifyr ac yn addas i blant o wahanol oedran o fewn y blynyddoedd cynnar ,gan fod modd eu gwahaniaethu ar gyfer galluoedd gwahanol.

AIL: Lili Lewis

Yma eto y gemau wedi selio ar y llyfr 'Y Lindysyn Lwglyd lawn' .'Roedd taflen creu patrwm ar gyfer lliwiau corff y Lindys a Gêm loto gair a llun oedd yn addas ar gyfer yr oedran.

Grwp Gofal Plant

Yn anffodus roedd llawer o eiriau Saesneg yn amlwg yn y gwaith megis 'Finish ,Answer sheet , oink' a.y.b. yn golygu nad yw y gwaith yn dilyn cyfarwyddiadau a rheolau yr Urdd.